

Minutes of the **Planning and Amenities Committee** held at the Penrhyn Hall, on **Monday 14 October 2019** at 6.30 p.m.

**PRESENT:** - His Worship The Mayor Councillor John Wyn Williams  
The Deputy Mayor Owen Hurcum  
Councillors: Gwynant Roberts (Chair) Colin King  
Les Day Enid Parry  
Keiran Jones Gareth Roberts

Mair Rowlands  
Elin Walker Jones  
Huw Wyn Jones.

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk

## **100/19 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors Medwyn Hughes, J Wynn Jones, Nigel Pickavance, and Luke Tugwell.

## **101/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

None.

## **102/19 URGENT BUSINESS**

i) The Deputy Mayor explained the history and significance of white poppies worn on Remembrance Day. He said that these had been worn for many years and they were distributed locally by Cymdeithas y Cymod and represented all victims of war, a commitment to peace and a challenge to attempts of glamorising war. Members felt that this would be appropriate as the white poppy symbolised the many killed in war and as a result of war both military and civilians.

**RESOLVED:** that 100 white poppies be purchased at a cost of £50 from Cymdeithas y Cymod and a wreath be prepared on behalf of the City Council for laying by the Mayor/Deputy Mayor on Remembrance Day 2019.

ii) The Town Clerk reported that there had been a request for an election for the vacant seat in Hirael Ward. The appropriate notification for Nomination Papers would be announced within the next week or so.

iii) The Town Clerk reported that work was now much decreased at the Pier in accordance with recent notification. A fuller report would be given at the next Finance and General Purposes Committee.

## **103/19 PLANNING APPLICATIONS**

**RESOLVED:** that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below: -

**C19/0896/11/LL** Erection of privacy fencing, external flue and equipment and covered entrance area. Psychology Block, Deiniol Road. **No objections.**

**C19/0894/11/LL** Demolish existing side extension and erect a new extension in its place. 13 Ffordd Coed Mawr. **No objections.**

**C19/0914/11/LL** Conversion of existing dwelling into a House in Multiple Occupation. 3 Mount Pleasant Terrace, Y Cilgant. **Objection as this was an over-development of the site, there was already over 25% of properties in the Ward designated as HMO's and this development would contravene the policy in the Local Plan for HMO development.**

**C19/0943/11/HY** Internally illuminated signs. 4 College Road. **The City Council could not make fair comments at this stage as it had objected to the development of the property as a take-away, therefore cannot support or object to the related illuminated sign application.**

### **Pre-Application Consultations**

1) Proposed erection of up to 30 dwellings with associated parking, access and infrastructure. Land at Pen y Fridd Road.

Comments:

There were no issues in principle with the development;  
Some concern was expressed about access to the site which was limited and sometimes congested;  
Access and egress could present a danger to both vehicular movements and pedestrians;  
It remained unclear what percentage of proposed dwellings were social housing and open-market properties.

- 2) Change of use of a HMO together with erecting an extension to the rear to create 15 self-catering residential units. 20/22 College Road.

Comments:

Concern was expressed at the number of proposed units at this limited site;  
Concern also about the amount of waste and recycling created by 15 units and were there enough bin spaces etc;  
Car parking was likely to be difficult given the limited space at the rear.

#### **104/19 HIGHWAY MATTERS**

None

#### **105/19 LICENSING MATTERS**

None.

#### **106/19 FINANCIAL MATTERS**

**Invoices for payment** - It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £9940.30 had been approved.

#### **107/19 EXCLUSION OF PRESS & PUBLIC**

**RESOLVED:** That under the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, members of the press and public be excluded from the meeting due to the confidential nature of their business to be transacted.

## **PART 2**

#### **REPORT OF THE STAFFING PANEL 9 October 2019**

The Town Clerk explained that the Staffing Panel had met to discuss the limited response to the advertisement for a new Town Clerk/Finance Offer.

Following the report a discussion ensued and a temporary solution was agreed.

**RESOLVED:** that:

- due to the lack of qualified candidates there will be no interviews held and no plans to re-advertise at the moment;
- that an interim solution be made with a temporary position being both flexible and paid pro rata 2-3 days per week if possible. Hopefully from someone local – ie Gwynedd and Ynys Mon SLCC branch members;
- If not, the TC to approach SLCC nationally to assess the ‘Locum Pool’ of experienced Clerks to act as Interim Appointment;
- make a request to Mold TC to extend the one-day (handover) support from the current TC from one month to two – ie until Christmas;
- The Staffing Panel to appoint a suitable person to review the current staffing structure and duties/job requirements for the future;
- The Staffing Panel to make appropriate recommendations to Finance and General Purposes Committee on 27 January;
- Undertake a new recruitment process early in 2020 (keep existing applications on file);
- Staffing Panel to meet asap.

The Meeting closed at 7.25 p.m.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Nos Lun 14 o Hydref 2019 am 6.30 y.h.

**PRESENNOL** :- Ei Deilyngdod y Maer y Cyngorydd John Wyn Williams

Y Dirprwy Faer y Cyngorydd Owen Hurcum

Y Cynghorwyr Gwynant Roberts (Cadeirydd)

Colin King

Mair Rowlands

Les Day

Enid Parry

Elin Walker Jones

Keiran Jones

Gareth Roberts

Huw Wyn Jones

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

## 100/19 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Medwyn Hughes, J Wynn Jones, Nigel Pickavance a Luke Tugwell.

## 101/19 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLTTIAD PERSONOL

Dim.

## 102/19 MATERION BRYS

i) Eglurodd y Dirprwy Faer hanes ac arwyddocâd y pabi gwyn sy'n cael ei wisgo ar Ddydd y Cofio. Dywedodd fod y rhain wedi bod yn cael eu gwisgo ers nifer o flynyddoedd a'u bod yn cael eu dosbarthu'n lleol gan Gymdeithas y Cymod. Maent yn cynrychioli holl ddioddefwyr rhyfel, ac maent yn ymrwymiad i heddwch ac yn her i'r ymdrechion i wneud rhyfel yn rhywbeth cyffrous. Teimlai'r Aelodau y byddai hyn yn briodol gan fod y pabi gwyn yn symbol o bawb a gafodd eu lladd yn y rhyfel ac o ganlyniad i'r rhyfel, yn filwyr a phobl gyffredin.

**PENDERFYNWYD:** prynu 100 o babiau gwyn ar gost o £50 gan Gymdeithas y Cymod a pharatoi torch ar ran Cyngor y Ddinas i'w chyflwyno gan y Maer/Dirprwy Faer ar Sul y Cofio 2019.

ii) Adroddodd Clerc y Dref fod cais wedi dod am etholiad ar gyfer y sedd wag yn Ward Hirael. Byddai'r hysbysiad priodol am Bapurau Enwebu yn cael ei gyhoeddi o fewn tua wythnos.

iii) Adroddodd Clerc y Dref fod y gwaith wedi lleihau'n ddifawr ar y Pier yn unol â'r hysbysiad diweddar. Bydd adroddiad llawnach yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol.

## 103/19 CEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD :** Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

**C19/0896/11/LL** Codi ffens preifatrwydd, ffliw a chyfarpar allanol a mynedfa dan gysgod. Y Bloc Seicoleg, Ffordd Deiniol. **Dim gwrthwynebiad.**

**C19/0894/11/LL** Dymchwel estyniad ochr presennol a chodi estyniad newydd yn ei le. 13 Ffordd Coed Mawr. **Dim gwrthwynebiad.**

**C19/0914/11/LL** Addasu annedd bresennol yn dŷ amlfediannaeth. 3 Mount Pleasant Terrace, Y Cilgant. **Gwrthwynebiad gan fod hyn yn or-ddatblygu ar y safle, roedd dros 25% o eiddo yn y Ward wedi'u dynodi'n HMOs yn barod a byddai'r datblygiad hwn yn mynd yn groes i'r polisi yn y Cynllun Lleol am ddatblygiadau HMO.**

**C19/0943/11/HY** Arwyddion wedi eu goleuo'n fewnol. 4 Ffordd y Coleg. **Nid oedd Cyngor y Ddinas yn gallu gwneud sylwadau teg ar hyn o bryd gan ei fod wedi gwrthwynebu datblygu'r eiddo fel siop tecawê, felly ni allai gefnogi na gwrthwynebu'r cais cysylltiedig am arwydd wedi'i oleuo.**

### Ymgynghoriadau Cyn-ymgeisio

1) Cynllun Arfaethedig i godi hyd at 30 o anheddua gyda pharcio, mynediad ac isadeileddau cysylltiedig. Tir yn Ffordd Pen y Ffridd.

Sylwadau:

Nid oedd problemau gyda'r datblygiad mewn egwyddor;

Mynegwyd rhywfaint o bryder am fynedfa i'r safle a oedd yn gyfyng ac weithiau'n dagfa;

Gallai mynd i mewn ac allan fod yn beryglus i symudiadau cerbydau a cherddwyr;

Roedd hi'n dal yn aneglur pa ganran o'r anheddu arfaethedig oedd yn dai cymdeithasol a faint i'r farchnad agored.

- 2) Newid defnydd tŷ amlfeddiannaeth ynghyd â chodi estyniad yn y cefn ar gyfer 15 uned breswyl hunangynhaliol. 20/22 Ffordd y Coleg.

Sylwadau:

Mynegwyd pryder am nifer yr unedau arfaethedig ar y safle cyfyng hwn;  
Pryder hefyd am swm y gwastraff a'r deunydd ailgylchu fydd yn cael eu creu gan 15 uned ac a oedd digon o lefydd i finiau ayb.;  
Roedd parcio ceir yn debyg o fod yn anodd o ystyried y diffyg lle yn y cefn.

#### **104/19 MATERION PRIFFYRDD**

Dim

#### **105/19 MATERION TRWYDDEDU**

Dim

#### **106/19 MATERION CYLLID**

**Anfonebau i'w talu** - Nodwyd fod anfonebau fel ag y manylwyd arnynt ar y rhestr yn dod i gyfanswm o £9940.30 wedi cael eu cymeradwyo.

#### **107/19 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:** O dan ddarpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y materion i'w trafod.

#### **RHAN 2**

#### **ADRODDIAD PANEL STAFFIO 9 Hydref 2019**

Eglurodd Clerc y Dref fod y Panel Staffio wedi cyfarfod i drafod yr ymateb tila i'r hysbyseb am Glerc y Dref/Swyddog Ariannol newydd.

Yn dilyn yr adroddiad, cafwyd trafodaeth a chytunwyd ar ateb dros dro.

#### **PENDERFYNWYD:**

- oherwydd y diffyg ymgeiswyr cymwys, ni fydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ac nid oes cynlluniau i ail-hysbysebu ar hyn o bryd;
- ateb y broblem dros dro drwy gynnig swydd ran-amser a fyddai'n hyblyg ac yn talu pro-rata 2-3 diwrnod yr wythnos os oes modd. Gobeithio o blith rhywun lleol – hy aelodau cangen SLCC Gwynedd ac Ynys Môn;
- Os na, Clerc y Dref i holi SLCC yn genedlaethol i asesu'r 'Gronfa Lanw' o Glercod profiadol i weithredu fel Penodiad Interim;
- gwneud cais i Gyngor Tref yr Wyddgrug i ymestyn y cymorth (trosglwyddo) un diwrnod gan y Clerc presennol o un mis i ddau – hy tan y Nadolig;
- Y Panel Staffio i benodi unigolyn priodol i adolygu'r strwythur staffio presennol a dyletswyddau/gofynion y swydd i'r dyfodol;
- Y Panel Staffio i wneud argymhellion priodol i'r Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol ar 27 Ionawr;
- Dechrau proses reciriwtio newydd yn gynnar yn 2020 (cadw'r ceisiadau presennol ar y ffeil);
- Y Panel Staffio i gyfarfod cyn gynted â phosibl.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.25 y.h.